



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 2501 (Cy.204)

2001 No. 2501 (W.204)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Arolygu Addysg a
Hyfforddiant (Cymru) 2001**

**The Inspection of Education and
Training (Wales) Regulations 2001**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan IV o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 yn estyn cylch gwaith Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i gynnwys y mathau o addysg a hyfforddiant y cyfeirir atynt yn adran 75 o'r Ddeddf honno. Mae'r fframwaith ar gyfer arolygiadau o'r fath wedi'i nodi yn y Ddeddf, ond mae'r Ddeddf yn darparu i lawer o'r manylion gael eu nodi mewn Rheoliadau sy'n cael eu gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol. O dan y Ddeddf rhaid i arolygiadau gael eu cynnal mewn perthynas ag addysg neu hyfforddiant penodol y mae'r Ddeddf yn dod â hwy o fewn cylch gwaith Prif Arolygydd Cymru, ond gall y Prif Arolygydd gynnal arolygiadau ardal hefyd. Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â'r ddau fath o arolygu.

Part IV of the Learning and Skills Act 2000 extends the remit of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales to cover the kinds of education and training referred to in section 75 of that Act. The framework for such inspections is set out in the Act, but the Act provides for much of the detail to be set out in Regulations made by the National Assembly. Under the Act inspections must be carried out in respect of specific education or training brought within the remit of the Chief Inspector for Wales by the Act, but the Chief Inspector may also carry out area inspections. These Regulations deal with both forms of inspection.

Mae Rheoliad 1 yn cynnwys diffiniadau.

Regulation 1 contains definitions.

Mae Rheoliad 2 yn darparu bod arolygiadau addysg neu hyfforddiant penodol i'w cynnal bob pum mlynedd.

Regulation 2 provides for inspections of specific education or training to be carried out at five yearly intervals.

Mae Rheoliad 3 yn nodi o fewn pa gyfnod y mae rhaid i adroddiadau arolygu gael eu gwneud (ar gyfer arolygiadau ac arolygiadau ardal).

Regulation 3 sets out the period within which inspection reports (for both inspections and area inspections) are to be made.

Mae Rheoliad 4 yn nodi o fewn pa gyfnod y mae rhaid cyhoeddi cynlluniau gweithredu ac yn darparu ar gyfer dull cyhoeddi cynlluniau o'r fath. Mae'n pennu hefyd y personau neu'r cyrff y mae'n rhaid anfon copi o gynllun gweithredu atynt. Mae'n gymwys i arolygiadau ac arolygiadau ardal.

Regulation 4 sets out the period within which action plans must be published and provides for the manner of publication of such plans. It also specifies the persons or bodies to whom a copy of an action plan must be sent. It applies in relation to both inspections and area inspections.

2001 Rhif 2501 (Cy.204)**2001 No. 2501 (W.204)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001****The Inspection of Education and Training (Wales) Regulations 2001***Wedi'u gwneud* 5 Gorffennaf 2001*Made* 5th July 2001*Yn dod i rym* 1 Awst 2001*Coming into force* 1st August 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 77(2) a (4), 80(4), 83(9) a 84(5) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(a).

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on it by sections 77(2) and (4), 80(4), 83 (9) and 84(5) of the Learning and Skills Act 2000(a).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**Citation, commencement, application and interpretation**

1. -(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Awst 2001.

1. -(1) These Regulations are called the Inspection of Education and Training (Wales) Regulations 2001 and come into force on 1st August 2001.

(2) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

(2) They apply only to Wales.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae'r cyfeiriadau at adrannau yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

(3) In these Regulations references to sections are to sections of the Learning and Skills Act 2000.

(4) Yn y Rheoliadau hyn -

(4) In these Regulations -

ystyr "adroddiad arolygu" ("*inspection report*") yw adroddiad ar arolygiad neu arolygiad ardal y mae'n ofynnol i'r Prif Arolygydd ei wneud o dan adran 76(2)(c), 77(3) neu 83(8);

"action plan" ("*cynllun gweithredu*") means the written statement referred to in section 80(3), 84(2) or 84(3);

ystyr "arolygiad" ("*inspection*") (heb ragor) yw arolygiad addysg neu hyfforddiant y mae adran 75 wedi dod ag ef o fewn cylch gwaith y Prif Arolygydd, ond nid yw'n cynnwys arolygiad ardal;

"area inspection" ("*arolygiad ardal*") means an inspection under section 83;

ystyr "arolygiad ardal" ("*area inspection*") yw arolygiad o dan adran 83;

"the Chief Inspector" ("*y Prif Arolygydd*") means Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales(b);

ystyr "cynllun gweithredu" ("*action plan*") yw'r datganiad ysgrifenedig y cyfeirir ato yn adran 80(3), 84(2) neu 84(3);

"inspection" ("*arolygiad*") (without more) means an inspection of education or training brought within the remit of the Chief Inspector by section 75, but does not include an area inspection;

"inspection report" ("*adroddiad arolygu*") means the report on an inspection or area inspection which the Chief Inspector is required to make under section 76(2)(c), 77(3) or 83(8);

(a) 2000 p.21. I gael ystyr "prescribed" yn adran 77 gweler is-adran (9) o'r adran honno.

(a) 2000 c.21. For the meaning of "prescribed" in section 77 see subsection (9) of that section.

(b) See section 4 of the School Inspections Act 1996 (c.57). The current title, Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales, was substituted by section 73(1) of the Learning and Skills Act 2000.

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn ŵyl banc nac yn rhan o wyliau hwy nag wythnos sy'n cael eu cymryd gan y sefydliad o dan sylw (pan fydd yr addysg a'r hyfforddiant sy'n cael eu harolygu yn cael eu darparu mewn sefydliad addysgol); ac

ystyr "y Prif Arolygydd" ("*the Chief Inspector*") yw Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru(a).

Ysbeidiau arolygu

2. Mae arolygiadau i'w cynnal o fewn pum mlynedd i'r dyddiad y mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym, ac yna o fewn pob pum mlynedd i'r arolygiad diweddaraf.

Adroddiadau arolygu

3. Rhaid gwneud adroddiadau arolygu o fewn y cyfnod o 55 niwrnod gwaith o'r dyddiad y mae'r arolygiad neu'r arolygiad ardal yn cael ei gwblhau, neu pan fydd angen darparu cyfieithiad i'r Gymraeg neu'r Saesneg, y cyfnod o 65 niwrnod gwaith o'r dyddiad hwnnw.

Cynlluniau gweithredu

4. -(1) Rhaid cyhoeddi cynllun gweithredu o fewn y cyfnod o 40 niwrnod gwaith neu, pan fydd angen darparu cyfieithiad i'r Gymraeg neu'r Saesneg, y cyfnod o 50 niwrnod gwaith o'r dyddiad (yn y naill achos neu'r llall) y cafodd y corff o dan sylw gopi o'r adroddiad arolygu.

(2) Rhaid cyhoeddi cynllun gweithredu drwy drefnu ei fod ar gael i'w archwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar bob adeg resymol yn swyddfeydd y corff o dan sylw, ac ar unrhyw wefan sydd gan y corff hwnnw ar y rhyngwyd.

(3) Rhaid anfon copi o gynllun gweithredu at bob un o'r canlynol -

- (a) y Prif Arolygydd;
- (b) y Cynulliad Cenedlaethol;
- (c) Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant;
- (ch) unrhyw awdurdod addysg lleol neu gorff neu berson arall sy'n darparu cymorth ariannol ar gyfer unrhyw addysg neu hyfforddiant a arolygwyd (oni bai mai'r awdurdod, y person neu'r corff hwnnw sydd wedi paratoi'r cynllun gweithredu).

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales; and

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means a day which is not a Saturday, a Sunday, a bank holiday or (where the education and training inspected is provided at an educational institution) part of a holiday longer than a week taken by the institution in question.

Inspection intervals

2. Inspections are to be conducted within five years of the date on which these Regulations come into force, and then within each five year period of the date of the last inspection.

Inspection reports

3. Inspection reports must be made within the period of 55 working days from the date on which the inspection or area inspection is completed or, where it is necessary to provide a translation into Welsh or English, the period of 65 working days from that date.

Action plans

4. -(1) An action plan must be published within the period of 40 working days or, where it is necessary to provide a translation into Welsh or English, the period of 50 working days from (in either case) the date on which the body concerned received a copy of the inspection report.

(2) An action plan must be published by making it available at the offices of the body concerned for inspection by members of the public at all reasonable times, and on any internet web-site of that body.

(3) A copy of an action plan must be sent to each of the following -

- (a) the Chief Inspector;
- (b) the National Assembly;
- (c) the National Council for Education and Training for Wales;
- (d) any local education authority or other body or person providing financial support in respect of any education or training inspected (unless that authority, person or body prepared the action plan).

(a) Gweler adran 4 o Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996 (p.57). Amnewidiwyd y teitl presennol, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant, gan adran 73(1) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

(4) Rhaid anfon copi o gynllun gweithredu hefyd at unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am gopi (yn ddi-dâl).

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y corff o dan sylw" ("*the body concerned*") yw'r corff y mae'n ofynnol, o dan adran 80(3) neu is-adran (2) neu (3) o adran 84 (yn ôl fel y digwydd), iddo baratoi'r cynllun gweithredu.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

(4) A copy of an action plan must also be sent to any member of the public who requests a copy (free of charge).

(5) In this regulation, "the body concerned" ("*y corff o dan sylw*") means the body who, under section 80(3) or subsection (2) or (3) of section 84 (as the case may be), is required to prepare the action plan.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

5 Gorffennaf 2001

5th July 2001

D.Elis Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 2501 (Cy.204)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Arolygu Addysg a
Hyfforddiant (Cymru) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 2501 (W.204)

EDUCATION, WALES

The Inspection of Education and
Training (Wales) Regulations 2001

©Hawlfrant y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W/363/08/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090320-X



9 780110 903200